

cwmpawd

*eglwys efengylaidd
gymraeg caerdydd*



Rhif 70

Tachwedd 2013 - Chwefror 2014

Golygyddol

Trystan Hallam

‘The times they are a-changing!’ Rwy’n siŵr bod llais unigryw Bob Dylan a’i harmoniwm yn gwichian yn eich pen jyst wrth ichi ddarllen y geiriau hyn. Does gen i fawr o ddim yn gyffredin â’r hen Bob, ond fe fwriodd ei forthwyl gerddorol yr hoelen ar ei phen: mae bywyd yn newid drwy’r amser. Nid yn unig ym mwrlwm y 1960au pan oedd Dylan yn ei anterth, ond mae’n wir am fywyd yn gyffredinol – mae’n newid o hyd. Mae hanes y byd yn hanes newid.

Bydd y rhifyn hwn o’r *Cwmpawd* wedi’i gyhoeddi erbyn i 2014 agor ei drws. Cofio canrif ers cychwyn y Rhyfel Byd Cyntaf yn 1914. Sawl rhifyn o’r *Cwmpawd* fyddai ei angen i geisio disgrifio’r newidiadau a achoswyd gan y Rhyfel, a’r newidiadau a fu yn y ganrif a’i dilynodd? Ond nid yn unig y mae hanes y byd yn hanes o newid: mae ein bywydau personol yn newid o hyd hefyd – ysgol, prifysgol, swyddi, ceisio prynu tŷ, priodi, genedigaethau,

profedigaethau, ymddeoliad – ac fe allai’r rhestr fynd yn ei blaen! Does dim byd byth yn aros yr un peth, does dim byd yn aros yn llonydd.

Efallai eich bod chi wedi llwyddo i ddwyn pum munud fach a phaned, *digestive* a’r *Cwmpawd* yn eich llaw – a rhyw ebychiad, ‘Ga ’i hoe am bum munud!’ Ond does dim dianc rhag rhuthr newidadau bywyd yn y *Cwmpawd* hyd yn oed! Bu’n gyfnod o newid mawr yn yr eglwys. Ymddeolodd Gwynn ddiwedd mis Awst, ar ôl gweinidogaethu yn ein plith am bron i 30 o flynyddoedd. All pwt o olygyddol ddim dechrau mynegi ein diolch i Gwynn am ei weinidogaeth. Braf yw bod Gwynn a Lis yn aros gyda ni fel aelodau – cawn elwa o’u profiad. Ond am newid! Pwy sydd nawr â’r dasg o weinidogaethu? Dau grwtyn ifanc, Emyr a Trystan – a’r hynaf ohonynt ond yn dair oed pan ddechreuodd Gwynn ei weinidogaeth yng Nghaerdydd. Am newid i’r eglwys!

Ac os nad oedd hynny'n ddigon o newid, rydym hefyd wedi colli Gwydion, Catrin a Bedwyr i'r Bala. Braf oedd cael comisiynu Gwydion a Catrin i fynd yn wardeniaid i ganolfan Gristnogol Bryn-y-groes. Braf clywed fod Bedwyr wedi dechrau ei gwrs Lefel-A, a'i fod yn setlo'n iawn. Mae hyn i gyd yn braf iawn – ond dydyn nhw ddim yma gyda ni! Am newid!

Dyma fy erthygl olygyddol gyntaf i i'r *Cwmpawd* – a bu bron i mi roi'r tetil '**S.O.S – dewch nôl Gwynn, dewch nôl Gwydion, Catrin a Bedwyr!**' Sut ydyn ni'n mynd i ddygymod â'r newidiadau? Rwy'n teimlo braidd fel Lance-Corporal Jones o *Dad's Army* yn gweiddi 'Don't panic, don't panic' wrth redeg o amgylch y lle mewn panig llwyr. Ond wrth redeg fel ffŵl gwyllt llawn panig, a'r gair 'newid' yn ddiflastod ar fy nhafod, fe gofiais Hebreaid 13:8: 'Iesu Grist yr un ydyw ddoe a heddiw ac am byth.' Oes, mae newidiadau enfawr wedi digwydd ym mywyd yr eglwys, ac eto dydy'r Arglwydd ddim wedi newid. Fe yw'r Mab Tragwyddol – o dragwyddoldeb i dragwyddoldeb yn Fab Duw. Byddwn yn cofio'r Ymgawdoliad

wrth ddathlu'r Nadolig – ychwanegodd y Mab ddyndod at ei dduwdod. Fe o hyd yw'r Duw-ddyn. Ac mae'r ffaith honno'n ein harwain yn syth i gofio fod yr Arglwydd Iesu, y Duw-ddyn, wedi sefyll yn y canol rhwng y Duw sanctaidd a dyn pechadurus. Hwn yw'r Arglwydd, ac yntau wedi byw bywyd perffaith, a aeth i'r groes i dderbyn cosb pechod yn lle ei bobl. Mae ei waith yr un mor effeithiol heddiw ag yr ydoedd yr eiliad y dywedodd 'Gorffennwyd!' ar y groes. Hwn yw'r Arglwydd a atgyfododd y trydydd dydd, ac sydd y funud hon yn eiriol dros ei bobl ar Dduw'r Tad.

Os nad ydi hynny'n ddigon i wneud ichi dagu o lawenydd ar eich *digestive*, wn i ddim beth a wnaiff! Mae'r panig drosodd – yn wir, doedd dim panig yn y lle cyntaf. Gall Bob Dylan ganu drwy'r oesoedd fod yr amseroedd yn newid – ond does dim angen i'r Cristion fflapio mewn panig. Cofiw'n Hebreaid 13:8, 'Iesu Grist yr un ydyw ddoe a heddiw ac am byth.'

Blas o'r Bala

Diwrnod ym Mryn-y-Groes

Mae sawl math o ddiwrnod ym Mryn-y-groes, ac rydym yn dal i ddarganfod yr amrywiaeth mawr. Os ydych chi wedi ymweld â'r lle erioed, mae'n debyg eich bod yn gwbod am y bwrlwm sy'n nodweddiadu'r lle pan fydd ymwelwyr yma. Ond efalla nad ydych yn gwybod sut beth yw hi i fod ochr arall y cownter, fel petai. Dyma gipolwg felly ar ddiwrnod pan fyddwn yn gweini ar ymwelwyr.

Ein grŵp cyntaf oedd criw o Gymdeithas y Beibl Awstralia, yn dilyn ôl traed Mari Jones wrth iddi gerdded o Lanfihangel-y-pennant i'r Bala i brynu Beibl gan Thomas Charles. Roedden nhw'n talu am dywelion a dillad gwely, felly roedd angen gwneud 23 o welyau cyn iddyn nhw ddod. Bu Gwydion wrthi'n hongian baner Cymru a baner Awstralia yn y cyntedd i'w croesawu, ac yn ceisio deall system gwres canolog Bryn-y-groes er mwyn bod yn



siwr eu bod yn gyfforddus. Profiad swreal oedd cerdded trwy'r adeilad yn clywed acen Awstralia a 'G'day mate' yn eich cyfarch!

Roedden nhw'n fore-godwyr, ac roedd paratoi brecwast wedi ei goginio erbyn 7.30 y bore yn sialens i un ohonom yn arbennig (cewch chi ddyfalu pa un!). Eu bwriad oedd gwneud y daith mewn tair rhan o 6 milltir yr un. Felly yn syth ar ôl brecwast, fel arfer, bydden yn mynd am y bws, er mwyn cael eu gollwng i gerdded eu dogn dyddiol. Roedd

cael pecyn-cinio unigol yn barod erbyn 9 yn her arall!

Yn anffodus, doedd dim cyfle inni roi'n traed i fyny am ychydig oriau ar ôl iddynt ymadael. Bydden ni'n cael paned sydyn gyda Stuart a Claire, y ddau weithiwr rhan-amser sydd yma. Dyma gyfle i Gwydion agor y Gair yn fyr gyda ni, a chyfle i ni weddio gyda'n gilydd. Wedyn, yn ôl â ni at y gwaith. Fel arfer byddai Gwydion yn mynd ati i wneud ychydig o waith Swyddfa (ebyst, pobl yn holi am delerau a dyddiadau rhydd, cyfrifon, trio

cael gafael ar weithwyr i wneud gwaith cynnal a chadw, ac ati), cyn mynd allan i arddio neu drwsio rhywbeth yn yr adeilad. Byddai Catrin yn trio sicrhau bod yr adeilad yn dwt ac yn lân (mae 15 toiled yma, 13 sinc a 10 cawod), yn archebu bwyd ac yn mynd ymlaen gyda pharatoi ar gyfer y pryd nos.

Mae Catrin yn darganfod yn barod bod chwaeth bwyd pob grŵp yn wahanol i'w gilydd. Roedd yr Awstraliaid yn hoff iawn o ffrwythau, llysiau a salad, te *herbal*, uwd, a blasau gweddol



soffistigedig. Doedden nhw ddim yn bwyta llawer o datws na sglodion na bisgedi. Ac roedden nhw'n falch iawn bod *wi-fi* ar gael yma – er bod cael pedwar neu bump yn trio skypio Awstralia ar yr un pryd yn her i signal we y Bala a Bryn-y-groes!

Ar ôl y pryd nos roeddent yn cael cyfnod o weddi a mawl. Gwahoddwyd ni i ymuno â nhw, a chafodd Gwydion gyfle i rannu sut yr arweiniwyd nii'rswydd. Yn ogystal roeddent wedi gwahodd aelodau o gapeli lleol i ymuno â nhw, ac roedd hyn yn ffordd dda i ni'n dau gwrdd â nifer o bobl hefyd. Daeth ffotograffydd o'r *Cyfnod* (y papur bro lleol) yma hefyd.

Job olaf pob dydd yw golchi'r ffedogau, cadachau, clytiau a llieiniau sychu-llestri ac yna cerdded trwy'r adeilad i sicrhau bod y ffenestri wedi eu cau, y drysau wedi eu cloi a bod popeth yn ddiogel.

Bu Duw yn dda yn rhoi'r criw yma i ni fel ein grŵp cyntaf. Roedden nhw'n frwdfrydig, yn werthfawrogol, yn Gristnogion cynnes ac yn onest (yn barod i

ddweud yn gwrtais ac yn ddi-gŵyn os oedd drws yn gwichian, neu os nad oedd cawod yn gweithio). Cawsom ein hatgoffa bod teulu'r Ffydd yn wir yn fyd-eang. Mae'n wych sut y mae cwlwm cryf yn bodoli rhwng Cristnogion a'i gilydd, hyd yn oed rhai sy'n dod ar eich traws am gyfnod byr iawn. Mae nifer ohonynt wedi addo gweddïo drosom. Mae'n hyfryd meddwl am y diwrnod pan fydd teulu'r Ffydd yn gyfan i gyd gyda'n gilydd, heb orfod ffarwelio byth eto.

A dyna ddiwedd ymweliad yr Awstraliaid. Wel, ar wahân i'r ffaith bod angen golchi 23 set o ddillad gwely a chasys gobennydd a thywelion ...

Gwydion a Catrin Lewis


Wesley a'r ddinas *Noel Gibbard*

Howel Harris oedd yn gyfrifol am ddau ddigwyddiad cynnar o bwys yn hanes y cysylltiad rhwng Methodistiaeth yng Nghymru ac yn Lloegr. Cyfarfu â George Whitefield yng Nghaerdydd, 7 Mawrth 1739. Dyna ddechrau cyfeillgarwch agos rhyngddynt, a thrwy hynny hefyd cysylltwyd Methodistiaeth Galfinaidd Cymru â Methodistiaeth Galfinaidd Lloegr. A'r ail beth o bwys oedd gwahoddiad Howel Harris i John Wesley, yr Armin, ddod i Gymru. Fel Armin, ni fedrai John Wesley dderbyn athrawiaeth etholedigaeth, a chredai bod iachawdwriaeth pawb yn bosibl. Ac eto, fel Howel Harris, credai yn y pechod gwreiddiol.

Ar 15 Hydref 1739, croesodd John Wesley o Loegr am y tro cyntaf. Cyhaeddodd Gasgwent a phregethu yn yr awyr agored

wrth droed mynydd Devauden, gan fynd ymlaen oddi yno i'r Fenni ac yna i Gaerdydd erbyn dydd Iau, 18 Hydref. Synnodd yn fawr at brydferthwch y wlad. Yng Nghaerdydd, 18 Hydref, pregethodd John Wesley yn Neuadd y Sir, oedd ar dir y Castell, lle y pregethodd Howel Harris hefyd ar ei ymweliadau â Chaerdydd. Testun pregeth Wesley oedd, 'Cred yn yr Arglwydd Iesu Grist, a chadwedig fyddi' (Actau 16:31). Y diwrnod canlynol, pregethodd John Wesley yn Neuadd y Sir unwaith eto, ar y testun, 'Canys nid yw teyrnas Dduw fwyd a diod; ond cyfiawnder, a thangnefedd, a llawenydd yn yr Ysbryd Glân' (Rhufeiniaid 14:17). Gwresogwyd ei galon, a thrwy gynorthwy'r Ysbryd Glân parhaodd yr oedfa am dros dair awr.

wog Caerdydd



Pan groesodd John Wesley i Gymru am y drydedd waith, 1 Hydref 1741, roedd yr haul wedi machlud erbyn iddo gyrraedd Casnewydd. Yno, cafodd afael ar fachgen ifanc a gytunodd i'w arwain i Lanisien. Roedd yn dywyll fel y fagddu; dim lleud na sêr, ac roedd yn glawio. Cyrhaeddwyd Llanisien, a oedd yn bentref bychan y tu allan i Gaerdydd yr adeg honno, a chafodd y diwygiwr groeso yng nghartref Thomas Williams, fferm Llanisien Fach. Y diwrnod

canlynol pregethodd yn Neuadd y Sir, Caerdydd, ar y testun, 'A hon yw'r dystiolaeth; roddi o Dduw i ni fywyd tragwyddol: a'r bywyd sydd yn ei Fab ef' (1 Ioan 5:11). Roedd yn adeg gŵyl yng Nghaerdydd, a rhybuddiodd Wesley y meddwon nad oedd iddynt fywyd tragwyddol, ac mai eu diwedd fyddai suddo i uffern. Gwaeddodd un o'r dyrfa, 'Rwy'n un ohonynt, a'm dewis i'w mynd yno.'

Roedd John Wesley yng Nghaerdydd eto ddydd Sadwrn, 17 Hydref 1741. Pregethodd yno am dri o'r gloch cyn cychwyn am Gastell Ffwl-y-mwn (*Fonmon*) ym Mro Morgannwg (rhwng y Barri a Sain Tathan). Y bore wedyn, pregethodd yng Ngwenfô, ac yna ym Mhorthceri yn y prynhawn, cyn dychwelyd i bregethu yng Nghastell Ffwl-y-mwn yn yr hwyr. Enghraifft arall o'i deithio diflino yw dydd Mawrth a dydd Mercher, 3 a 4 Mawrth 1742. Teithiodd o Gaerdydd ar y dydd Mawrth i bregethu yng Nghwenfô, gan

bregethu wedyn yn Ffwl-y-mwn
yn yr hwyr, 'though in weariness
and pain' meddai. Pregethai
yn Nhresimwn am wyth o'r
gloch y bore wedyn, ac yna yn
Llantrisant cyn dychwelyd i
Gaerdydd. Rhaid bod ganddo
geffyl da!

Ar ei deithiau i Gymru, cafodd
John Wesley gefnogaeth rhai o'r
gwŷr mawr. Un ohonynt oedd
Robert Jones o Gastell Ffwl-y-
mwn. Aelod o Eglwys Loegr
oedd Robert Jones, er bod un
o'i gyndeidiau, Philip Jones,
yn Biwritan amlwg. Profodd
Robert Jones dröedigaeth o dan
weinidogaeth Charles Wesley, a
bu'n gefn i'r ddau frawd hyd ei
farwolaeth yn 1742. Parhaodd y
teulu i groesawu'r Wesleaid wedi
hynny. O'u cymharu â seiadau'r
Methodistiaid Calфинаidd, prin
oedd y canolfannau Wesleidd
yng Nghymru. O Loegr y
daeth y mudiad, ac roedd yn
ddieithr i bobl Cymru. Roedd
yn anghenraid ar John Wesley,
os oedd am gael pawb o'i
wrandawyr i ddeall, i gael
cyfieithydd. Gwreiddiwyd
Methodistiaeth Galфинаidd
yn nhir Cymru, a daeth ei
harweinwyr o blith y bobl. Ni

wreiddiodd Methodistiaeth
Wesleidd hyd nesi'r genhadaeth
Wesleidd Gymraeg ddechrau
tua 1800.

Ym mlynnyddoedd cynnar
ymweliadau John Wesley â
Chaerdydd, roedd perthynas
hapus rhyngddo â Howel
Harris, a'r Calфинаid yno. Ond
ni pharhaodd felly. Caledwyd
y safbwyntiau athrawiaethol, a
bu anghydweld yn y seiat yng
Nghaerdydd, a arweiniodd at
ymraniad. Gallwn ddysgu o
hyn. Rhaid ymrannu pan fydd
materion o bwys yn y fantol, ond
ni ddylem ymrannu ar faterion
nad ydynt yn ganolog i'r ffydd
Gristnogol.

Pwyllgor Cwmpawd

Leri George
Noel Gibbard
Amanda Griffiths
Trystan Hallam
Christine James
Ifan Lewis
Meleri Perkins

Hunger Games

Miriam Jones

Dim archwaeth at yr *Hunger Games*?

Nofel 'sci-fi' gan yr awdures Americanaidd Suzanne Collins yw *The Hunger Games* (2008), y gyntaf mewn trioleg o nofelau hynod o boblogaidd a anelwyd at bobl ifainc. Mae'r nofelau wedi cael eu cyfieithu i 26 o ieithoedd erbyn hyn, ac mae'r gyntaf a'r ail wedi cael eu haddasu ar gyfer y sgrin fawr. A'r ail ffilm yn y gyfres newydd gael ei rhyddhau, gofynnwyd i Miriam Jones drafod rhai o themâu'r *Hunger Games* ar gyfer darllenwyr *Cwmpawd*.

Po fwyaf rwy'n meddwl am stori'r *Hunger Games*, mwyaf rwy'n gweld mor syfrdanol yw'r neges Gristnogol. Dwi heb ddarllen y tair nofel yn y gyfres, ac felly'n rwy'n bell o fod yn arbenigwr arnyn nhw, ond gwnaeth sawl peth dynnu fy sylw wrth i mi ddarllen y llyfr cyntaf a hoffwn drafod rhai o'r pethau hynny.

Prif gymeriad yr *Hunger Games* yw Katniss Everdeen, merch 16 oed sy'n byw yn Panem, sy'n wlad ôl-apocalyptaidd yng

Ngogledd America. Mae'r wlad yn cael ei rheoli o ddinas y Capitol. Gwrthryfelodd 13 rhanbarth y wlad yn erbyn y Capitol, a phan gafodd y Capitol yr oruchafiaeth, cosbwyd y rhanbarthau trwy orfodi iddyn nhw fyw o dan amodau llym, a chreulon yn aml. I'w hatgoffa o'r hyn a ddigwyddodd, mae'n rhaid i bob rhanbarth roi un ferch ac un bachgen rhwng 12 ac 18 oed fel teyrnged (*tribute*) bob blwyddyn, i'w cynrychioli mewn brwydr hyd farwolaeth sy'n cael ei dangos ar y teledu – rhyw *reality television* erchyll. Mae'r ferch a'r bachgen yn cael eu dewis trwy loteri, a thra bod plentyn rhwng 12 a 18 oed, does dim *mitigating circumstances*, dim trugaredd, dim eithriadau – mae enw pob un yn mynd i mewn i'r loteri sâl.

Pan wirfoddolodd Katniss ar gyfer y 74ain *Hunger Games* yn lle ei chwaer, mae'n siŵr y byddai sawl un wedi ei labelu'n arwres. Allan o gariad at ei chwaer, cymerodd y baich o fod yn rhan o'r gemau anwaraidd hyn, ble roedd ganddi siawns goroesi o tua 4%. Gyda'r fath argoel, does dim syndod ein bod yn meddwl



yn uchel ohoni a'i pharodrwydd i sefyll yn lle ei chwaer! Mae'n siŵr hefyd ein bod ni'n synnu ac yn gresynu wrth weld amgylchiadau blin trigolion Panem, a'r ffordd y gorfodwyd iddynt fyw mewn ofn ac ansicrwydd.

Ond beth a ddylai daro Cristnogion yw'r ffordd y mae hyn i gyd yn hollol wrthwyneb i'r gwirioneddau yr ydym ni'n medru pwyso arnynt. Trwy Adda gwnaethom ni i gyd wrthryfela yn erbyn Duw, ond yn nhrefn rhagluniaeth, cymerodd Iesu Grist ein cosb haeddiannol ni unwaith ac am byth. Dydyn ni ddim bellach yn byw o dan y gyfraith, ond yn hytrach wedi ein rhyddhau trwy waed ein Gwaredwr. Nid rhyw loteri sydd y tu ôl i'n hachubiaeth, ond digwyddodd y cyfan yn ôl ei

fwriadau Ef ers cyn llunio'r byd. Does dim rhaid i ni fyw mewn ansicrwydd o dan feistr creulon sy'n newid o funud i funud, ond o dan Feistr digyfnawid sy'n darparu ar gyfer ein hanghenion i gyd.

Yn ystod y gemau, roedd disgwyl i Katniss, ei chyfaill Peeta a'r 'cystadleuwyr' eraill ennill ffafr oddi wrth noddwyr fel y byddant yn anfon cyflenwadau o fwyd, meddyginiaeth ac offer atynt i'w helpu yn eu hymdrechion i gadw'n fyw. Roedd yn rhaid iddynt ymddwyn mewn ffordd arbennig, gan wneud neu ddweud pethau a fyddai'n denu pobl i gynhesu atynt, neu wneud i'r noddwyr gredu bod gwerth mentro arnynt. Yng ngeiriau Katniss, 'Why am I hopping around like some trained dog trying to please people I hate?'

Wrth i mi feddwl am y dyfyniad hwn, sylweddolais mor aml y gallwn feddwl am enghreifftiau o bobl yn trio’u gorau glas i blesio rhywrai eraill; neu am grefyddau eraill sy’n gorchymyn i bobl wneud hyn neu’r llall er mwyn plesio eu duw ac ennill ffafr. Mor ddiolchgar y gallwn ni fod fel Cristnogion, ein bod ni’n gallu canu gyda Charlotte Elliot, ‘Just as I am, without one plea, but that Thy blood was shed for me’.

Er bod penderfyniad gwreiddiol Katniss i’w chynnig ei hun yn lle ei chwaer yn hunanaberthol, fe drôdd yn ymdrech hollol hunanol yn sydyn iawn wrth iddi ymbaratoi at y gemau. Bellach doedd dim lle i ystyried anghenion neb arall yn uwch na’i hanghenion ei hunan. Yn naturiol, roedd hi am oroesi er mwyn dychwelyd at ei mam a’i chwaer, er mwyn darparu ar eu cyfer ... ond beth am deulu pob plentyn arall? Wrth i ni ystyried ei haberth, allwn ni ddim wir ei gymharu i aberth Iesu drosom ni ar y groes (1 Pedr 3:18). Fyddai marwolaeth Katniss ddim wedi newid dim. Byddai’r un peth yn digwydd y flwyddyn wedyn a’r flwyddyn ar ôl hynny ... doedd dim diwedd ar y gemau erchyll, dim diwedd i’w weld ar y gosb.

Pan mae Katniss a Peeta yn ennill y gemau yn y diwedd, does dim gorfoledd – dim ‘Gorffennwyd’ mawr: dim ond y realiti ofnadwy bod 22 o bobl ifainc wedi eu lladd, a’u bod nhw ill dau, rywsut, wedi goroesi. Doedden nhw ddim yn ddieuog: roedden nhw wedi lladd, wedi treulio’u dyddiau’n meddwl am ffyrdd o gael gwared ar y chwaraewyr eraill ... felly sut oedd disgwyl iddynt lawenhau?

Darllenwch Hebreaid 10, ac rwy’n sicr y cewch eich taro, fel y cefais i, gan mor wahanol yw cynnwys yr adnodau hyn i’r syniadau sydd y tu ôl i stori’r *Hunger Games*. Er bod yr *Hunger Games* wedi mynd â phethau i’r eithaf, mae ein byd ni heddiw yn gweithio ar yr un syniad yn union o geisio ennill maddeuant, boed hynny’n faddeuant rhwng ffrindiau, meistri, ein cymdeithas, ac yn y blaen.

Mae’n siŵr y gallai pob un ohonom, o ddarllen y nofel, ehangu ar y cymariaethau a ffeindio sawl cymhwysiad arall i’n bywyd ni yn y stori drist hon, ond yn bersonol mae wedi gwneud i mi orfoleddu yn fy mherthynas anhaeddiannol i â Duw. Ac mae’n anogaeth enfawr i mi rannu fy ffydd gydag eraill sydd efallai byth wedi clywed bod ffordd i ni fod yn iawn gyda’n Creawdwr – sef trwy aberth Iesu ar y groes.

Enfys Gobaith

Phil Ellis

Gofynnais am gyfle i ddefnyddio colofnau'r *Cwmpawd* i ddiolch yn fawr i bawb a gyfrannodd i'r apêl ddiweddaraf am fwydydd i'w rhannu yng nghyfarfodydd bore dydd Iau *Enfys Gobaith*. Mae'r holl roddion a gasglwyd dros y misoedd diwethaf wedi eu gwerthfawrogi'n fawr. Mae pob ceisiwr lloches yn derbyn bagaid o fwyd ar ddiwedd y cyfarfod, ac mae'r eitemau yr ydych chi wedi eu rhoi yn rhan bwysig o'r broses yna. Wrth ddosbarthu, cyhoeddwn yn aml fod y bagiau'n rhoddion gan bobl sydd wedi profi cariad Crist ac sydd am rannu'r cariad hwnnw ag eraill.

Mae pethau wedi newid ychydig ers yr haf. O'r blaen, roeddem yn

cyfarfod yng nghapel Minster yn Southminster Road. Ers mis Medi, mae *Enfys Gobaith* wedi dechrau rhentu eiddo ar Broadway ger Heol Casnewydd – hen warws carpedi. Mae'r lle wedi ei ddiwygio, ac mae rhai o weithgareddau eraill yr *Enfys* – gofal dros y digartref a'r tlawd, gwasanaethau cynghori amrywiol, siop elusen ac astudiaethau beiblaidd – yn digwydd yno hefyd.

Rai misoedd yn ôl, yn wyneb ofnau bod nifer o'r rhai a oedd yn mynychu ddim yn geiswyr lloches go iawn, dechreuon ni wirio dogfennau, gan gredu bod dyletswydd arnom i barchu dymuniadau'r sawl a oedd yn



cyfrannu, sef bod y cymorth hwn ar gyfer ceisiwyr lloches yn hytrach na mewnfudwyr economaidd. Ar hyn o bryd, rhyw 30 o bobl sy'n troi i mewn, yn bennaf o wledydd Affrica, fel Congo, ac o India, Pacistan a'r Dwyrain Canol.

Mae'r symud wedi golygu bod pethau'n gallu bod yn fwy blêrnag o'r blaen (ac mae *Enfys Gobaith*, efallai, yn gallu ymddangos ar brydiau'n dipyn o boendod i'r rhai sy'n credu mewn trefn!), ond mae manteision hefyd. Mae modd storio nwyddau, mae amrywiaeth o ystafelloedd, mae'r lleoliad yn gyfleus ac mae mynediad i'r adeilad yn dda.

Mae'r gwasanaeth yn rhan ganolog o bob sesiwn. Eleni mae'r Arglwydd wedi bod yn bendithio'r rhain mewn ffordd amlwg. Fe fyddwch yn adnabod nifer o'r siaradwyr, ac mae'r Arglwydd yn defnyddio eu doniau i gyfathrebu'r Efengyl yn syml ac yn glir. Rhown bris uchel, yng nghanol y siarad a sŵn y plant bach a'r aflonyddwch sy'n gallu perthyn i lawer o'r rhai sydd yno, ar y cyfnodau hynny pan fydd Duw'n mynnu gwrandawriad a

phan fydd Ef i'w deimlo'n agos yn ein plith. Oherwydd cyfyngiadau iaith, mae'r cyflwyniad yn aml yn cynnwys elfen weledol, ac fe anelwn at sicrhau fod y canu a'r gweddio hefyd yn hawdd i'w dilyn.

Felly, diolch eto! Os gwelwch yn dda, gweddiwch dros Liz Perrett-Atkins, sy'n arwain y gwaith yn aberthol o ddiflino, dros y tîm o wirfoddolwyr sy'n helpu ac yn enwedig dros y bobl annwyl (ac weithiau ddim mor annwyl!) sy'n mynychu'r cyfarfod, fel y byddant yn cael Duw yn gymorth hawdd i'w gael yn eu cyfyngder.

Holi Hwn a Hon

Lydia

Cyn iddi ddychwelyd i Slofenia ym mis Medi, cawsom gyfle yn y cwrdd wythnos i glywed gan Lydia am waith IFES ymysg myfyrwyr y wlad honno. Dyma gyfle i holi ychydig yn fwy am Lydia'i hun!

Ble cest ti dy eni? Sut byddet ti'n disgrifio dy fagwraeth?

Cefais fy ngeni yn Ysbyty Gwynedd, Bangor a gan fod Dad yn weinidog cefais fy magu mewn llawer i fan yng Ngogledd Cymru – Bangor, Llangefni, Porthmadog a Phenrhyndeudraeth. Dim ond chwe mlynedd yn ôl y symudodd ein teulu i Aberystwyth.

Oedd / ydi hi'n anodd bod yn ferch y gweinidog?

Dydw i erioed wedi fy ngweld fy hun fel 'merch y gweinidog' – efallai oherwydd nad yw ein teulu ni'n un 'gweinidogaidd' yn y ffordd draddodiadol. (Does dim llawer o weinidogion yn gallu jyglo a reidio beic un-olwyn!) Dydw i ddim wedi bod yn un dda chwaith am fyw i fyny i ddisgwyliadau pobl o 'ferch y gweinidog'. Er enghraifft,



ychydig wythnosau ar ôl i Dad ddod yn weinidog Capel Fron ym Mhenrhyndeudraeth, gwnes i binsio pen-ôl hen ddynes a oedd wedi plygu i godi rhywbeth oddi ar y llawr! Rwy'n cofio meddwl ei bod wedi bod yn ddiwrnod da ar ôl cael da-da gan yr hen ddynes wedi i Mam fy ngorfodi i ymddiheuro iddi!

Sut dest ti'n Gristion?

Fedra i ddim pwyntio at amser penodol a dweud dyna pryd y des i'n Gristion. Fe gymerodd flynyddoedd pan oeddwn rhwng 11 a 14 mlwydd oed. Wedi cael

Adams

fy magu mewn teulu Cristnogol, gwyddwn lawer am Dduw a'r Beibl. Dydw i ddim yn meddwl imi erioed amau fod Duw yn bodoli; gwyddwn ei fod O yna, ond doedd O ddim yn berthnasol, yn ddim byd i'w wneud efo fi. Ond wrth i mi dyfu i fyny a dechrau meddwl drosta i fy hun, daeth yn glir imi fy mod mewn lle peryglus iawn o flaen Duw. Wrth gwrs roedd uchafbwynt pob blwyddyn – sef gwersylloedd Mudiad Efengylaidd Cymru – yn help i wneud mwy o sens o bethau. Rwy'n cofio rhyw bregethwr yn dod i'n capel rhywbryd a'm herio: os nad oeddwn yn gweld fy mhechod, i weddio y byddai Duw yn dangos i mi ble roeddwn yn sefyll o'i flaen. Dyna oedd y peth gwaetha a gora wnes i. Dechreuais weld fod yr holl betha drwg roeddwn i'n eu gwneud yn cyfri, a doeddwn i ddim yn gallu anwybyddu Duw ddim mwy. Ond hefyd roedd yr ateb yno ar hyd yr amser – roedd Iesu yn barod wedi cymryd fy nghosb, a dim ond trystio Fo oedd raid imi ei wneud. Cymerodd flynyddoedd imi sylweddoli mai dyna *yn unig* roeddwn i'n gorfod ei wneud.

Roeddwn i'n disgwyl newid i fod yn berson gwahanol oedd yn sanctaidd a da drwy'r amser. Ond doedd dim newid amlwg. Rwy'n cofio cael sicrwydd fy mod yn Gristion wrth edrych yn ôl ar y newidiada oedd wedi digwydd – dywedodd Mam fy mod wedi dechrau dweud sori am bethau; roeddwn yn casáu fy mhechod ac roeddwn i eisiau gwybod mwy am Dduw, a hyd yn oed eisiau darllen y Beibl.

Sut est ti o Fangor i Slofenia? Pryd a sut wnest ti deimlo'r baich i fynd i'r maes cenhadol?

Wedi imi ddod yn Gristion roeddwn wrth fy modd yn darllen hanes cenhadon oedd yn byw mewn ffydd ac yn profi Duw mewn ffordd anhygoel. Roeddwn i eisiau hynny – rydw i eisiau hynny o hyd. Roedd gennyf faich dros rannu'r Efengyl hyd yn oed yr adeg honno. Ond fy mwriad wrth fynd i'r Brifysgol ym Mangor oedd gwneud gradd mewn cerddoriaeth a dod yn athrawes gerdd mewn ysgol fach braf yng Nghymru. Mwynheais fod yn fyfyrwr – ddim y gwaith a'r traethoda yn gymaint â'r holl

bethau eraill fel bod mewn band jazz, siarad am oriau yn stafelloedd ein gilydd a bod yn rhan o'r Undeb Cristnogol (UC). Dysgais gymaint o fod yn rhan o'r UC; cydweithio â Christnogion o gefndiroedd hollol wahanol i mi; dysgu sut i gynllunio digwyddiadau efengylu a sut i rannu'r Efengyl mewn ffordd y bydd pobl yn ei deall. Ond yn ystod y cyfnod hwnnw dechreuais deimlo baich cynyddol i fynd i rannu'r Efengyl tu allan i Gymru (ond heb glem ble). Rwy'n eithaf swil yn naturiol, dydwi ddim yn hoffi siarad efo pobl ddieithr. A bod yn onest dydw i ddim yn dda am siarad na chymdeithasu yn gyffredinol. Ond eto rwy'n dal i deimlo baich dros rannu'r newyddion am Iesu orau y gallaf.

Wedi graddio penderfynais wneud gwaith *Relay* (10 mis o waith gwirfoddol gyda UCCF). Roedd yn flwyddyn anhygoel, yn dysgu ac astudio'r Beibl, cael cwrdd yn unigol â myfyrwyr Cristnogol a rhai di-gred, a dysgu am ras fawr Duw at weithiwr mor wael a diog â fi. Daeth cyfle gydag IFES Interaction (Mudiad UC byd-eang) i gario ymlaen i weithio gyda'r UC ond mewn gwlad arall. Teimlais fod hyn yn gyfle da i mi brofi a oedd gwneud gwaith cenhadol yn ewyllys Duw i mi. Pan glywais mai i Slofenia y byddwn yn mynd

(er nad oeddwn yn gwybod am fodolaeth y lle ynghynt!), sylweddolais fod Duw wedi bod yn fy mharatoi i fynd i'r wlad fach brydferth yma. Gwelwn gymaint o debygrwydd rhyngddi a Chymru; maint y ddwy wlad, pwysigrwydd yr iaith, cymdeithas glòs. Des yn sicr mai dyma lle roedd Duw eisiau i mi fynd, ac nad oeddwn yn mynd yno ar fy mhen fy hun.

Sut mae'r gwaith yn mynd yn Slofenia?

Blwyddyn sydd ers imi fod yn Slofenia ond mae wedi bod yn flwyddyn go galed. Y broblem fwyaf yw nad oes gan Zvesh (UC Slofenia) fyfyrwyr i weithio â nhw. Felly mae cael cyfarfodydd sefydlog a digwyddiadau yn anodd. Mae'n anodd hefyd oherwydd nad oes llawer o drefn arnom fel tim; does dim 'swydd-ddisgrifiadau' a nodau i anelu atynt. Treuliwn lawer o'n hamser yn ceisio datblygu cysylltiadau â'r eglwysi. Er nad oes llawer o Gristnogion yma (tua mil, mewn poblogaeth o 2 filiwn) does dim llawer o gydweithio chwaith. Mae'r eglwysi yn ofni y bydd Zvesh yn dwyn eu myfyrwyr ac mae'r myfyrwyr eu hunain yn amheus iawn ohonom. Mae gweddill y boblogaeth yn meddwl bod Cristnogion efengylaidd un ai yn sect fach ryfedd, neu yn ein hofni

oherwydd yr holl brofiadau drwg a gawsant o'r Eglwys Gatholig yn ystod eu plentyndod.

Ond caf fy annog gan ein pwyslais ar weddi, ac er yr holl rwystrau y mae Duw yn dal i weithio yma. Ar 28–9 Hydref rydym wedi cynllunio dau ddiwrnod arbennig i ddathlu'r diwygiad ac mae'r gwyddonydd o Gristion John Lennox yn dod i ddarlithio. Bwriad yr ymgyrch yma yw ceisio cael gwared ar rai o'r rhagfarnau sydd gan bobl am Gristnogion a pharatoi'r tir i'r Efengyl gael ei phlannu mewn ymgyrch ym mis Tachwedd.

Beth yw'r frwydr fwyaf yn y gwaith?
Gwneud ffrindiau. Peidio â disgyn

i anobaith, a cheisio cario ymlaen yn llawen heb gwyno.

Beth wyt ti'n ei fwynhau fwyaf am Slofenia ac am y gwaith yno?
Rwy'n mwynhau'r dirwedd a'r golygfeydd yn arw iawn. Mae hi wir yn wlad brydferth. Ond a bod yn onest beth rwyf wedi ei fwynhau fwyaf yw'r adegau pryd rwyf wedi bod yn agos at Dduw, yn enwedig yr adegau anodd. Rwy'n edrych yn ôl a chofio pa mor felys oedd gallu dibynnu ar Dduw yn gyfan gwbwl a phrofi ei gariad mewn ffordd real iawn.

Sut gallwn ni yng Nghymru dy helpu di yn y gwaith?
Gweddïo, gweddïo a gweddïo!

Llun: Lydia a thîm Zvesh yn Slofenia



Holi'r Plant

Emyr James

Un o'r pethau mwyaf hyfryd a thrawiadol am yr efengyl Gristnogol yw ei bod yn newyddion da i bobl o bob oed! Nid yw'n dibynnu ar allu na gweithredoedd, y cyfan sydd ei angen yw ffydd – ffydd yn y ffaith bod yr Arglwydd Iesu Grist wedi byw bywyd perffaith drosom ni, wedi marw fel cosb yn ein lle ni, ac wedi atgyfodi er mwyn rhoi bywyd i ni. Mae'n neges sy'n ddigon syml i blentyn ei deall, ei derbyn, ac ymateb iddi. Felly dros y blynyddoedd mae nifer ohonom wedi cael y fraint o fod yn rhan o weinidogaeth i blant – naill ai fel gwersyllwyr neu swyddogion. Mae'n dda i ni gael ein hatgoffa o'r hyn sy'n digwydd mewn encil a gwersyll, ac felly penderfynwyd holi rhai o blant yr eglwys am eu profiadau dros y flwyddyn ddiwethaf.



GRUFF

Nôl ym mis Chwefror fe est ti am y tro cyntaf i'r encil. Sut oeddet ti'n teimlo o flaen llaw?

Ro'n i'n teimlo'n gyffrous cyn mynd achos ro'n i wedi bod i'r diwrnod Aduniad yn Aberystwyth ym mis Tachwedd ac felly ro'n i'n edrych ymlaen at weld pawb eto am dridiau!

Eleni roedd yr encil yn Llanmadog, ym mro Gŵyr. Sut le yw Llanmadog?

Mae Llanmadog yn lle neis iawn.
Ro'n i'n cysgu mewn *dorm* gyda
llawer o fechgyn mewn bynciau.
Roedd digon o le i chwarae ar
y cae pêl-droed neu'r neuadd
chwaraeon, a hefyd roedd neuadd
fwyta.

*Beth wnes ti fwynhau fwyaf am
yr encil?*

Y bwyd!!! Roedd y bwyd mor
neis, ac roedd digon ohono i fi
gael *thirds* bob tro!

*Oedd unrhyw beth wnes ti ddim
mwynhau?*

Na! Dim rili – roedd popeth yn
epic.

*Beth fyddet ti'n ei ddweud wrth
rywun oedd yn meddwl dod i'r
encil?*

Mae'n werth mynd achos:

1. Y bwyd.
2. Gwneud ffrindiau newydd.
3. Y gemau.

DAFYDD

*Ar ôl cael mynd i'r encil ym mis
Chwefror, fe est ti ar wersyll am
wythnos gyfan dros yr haf. Oeddet
ti'n nerfus?*

Na, *no way*! Roedd mynd i'r encil



yn gyfle i gwrdd â phlant eraill
oedd yn mynd yno.

*Am y tro cyntaf eleni roedd y
gwersyll yn Neuadd Pentrenant,
ger Y Drenewydd. Beth oeddet ti'n
meddwl o'r lle?*

Mae'n lle hyfryd! Hen dŷ enfawr,
gyda phwll nofio a gerddi enfawr
i chwarae ynddyn nhw.

*Pa fath o bethau ydych chi'n eu
gwneud ar wersyll?*

Chwarae pob math o gemau,
cael astudiaethau Beiblaidd a
chyfarfod bob bore. Eleni aethon
ni ar drip i'r West Midlands Safari
Park.

Wnest ti ddysgu unrhyw beth newydd?

Do, fe ddysgais i fod pawb yn gallu newid.

Beth fyddet ti'n ei ddweud wrth rywun oedd yn meddwl dod i'r gwersyll?

Mae'n gyfle gwyh i ddysgu am air Duw, aci gwrdd â Christnogion eraill.

FFLUR

Dwyt ti ddim wedi cael mynd i'r encil na'r gwersyll eto, ond rwyd ti yn mynd i glwb yr Hapus Awr yng nghampfa ysgol Glantaf ar nos Lun. Pam wyt ti'n mynd i'r clwb?

Dwi'n mynd i glwb yr Hapus Awr i weld fy ffrindiau, i ganu, chwarae gemau ac yn bwysicaf oll i ddysgu am Iesu.

Oeddet ti'n adnabod pawb yno yn barod?

Nac oeddwn, dim ond rhai o'r plant sy'n dod i'r capel. Mae plant yn dod i'r clwb o sawl ysgol wahanol.

Beth yw dy hoff beth di am y clwb?

Fy hoff beth i am y clwb yw'r cyfle i wneud ffrindiau newydd – er rwy'n hoff iawn o'r siop losin ar y diwedd hefyd!!

Oes unrhyw beth dwyt ti ddim yn ei hoffi?

Nac oes a dweud y gwir. Mae popeth yn hwyl.

Beth fyddet ti'n ei ddweud wrth rhywun oedd yn meddwl dod i'r clwb?

Fe fyddwn yn dweud wrthyn nhw ei fod yn glwb bywiog a llawn hwyl.

Diolch i'r Arglwydd am y gwaith y mae'n ei wneud yn ein plith ni ac ym mywydau plant ein gwlad.

Cofiwch fod croeso i blant Blwyddyn 1-6 yng nghlwb yr Hapus Awr, bob nos Lun yn ystod tymor yr ysgol, rhwng 17:30 a 18:30, yng nghampfa Ysgol Glantaf.

Adolygiad

Leri George

Ydych chi'n chwilio am rywbeth i'w ddarllen, ond ddim eisiau taclo nofel gyfan? Mae *Llon a Lleddf a Storïau Eraill* yn ddetholiad o rai o straeon byrion Sara Maria Saunders (S.M.S.) a gyhoeddwyd yn ddiweddar gan wasg Honno. Dyma lyfr y gallwch chi ei ddarllen am ryw hanner awr, ei adael am wythnos, wedyn ei ailgodi a darllen stori neu ddwy arall. Straeon ffuglennol sydd yma, ond mae'r cymeriadau a'r hanesion yn tarddu o brofiad personol yr awdures o effeithiau diwygiad ar unigolion a chymunedau.

Os am wybod mwy am yr awdures hon – gofynnwch i Wyn James! Ond, yn gryno ... Magwyd S.M.S. yn Llangeitho ar ddiwedd yr 19eg ganrif, ac mae ei straeon cynnar yn deillio o'i hatgofion am effaith Diwygiad 1858–9 ar y gymuned honno. Profodd Ddiwygiad 1904–5, ac yna'n ddiweddarach symudodd i Benarth ac ymuno â gwaith y Symudiad Ymosodol.

Yn ei rhagymadrodd i un o'i chyfrolau (sy'n cael ei gynnwys yn gyfrol hon), mae'r awdures yn nodi tri dosbarth o bobl a gafodd eu heffeithio gan y Diwygiad. Gallwch chi rannu cymeriadau S.M.S. hefyd yn yr un modd. Yn gyntaf, dyna'r rhai a ddaeth o'r tu allan i'r eglwys i mewn i'r gorlan; yn ail, y rhai a brofodd ailenedigaeth am y tro cyntaf er eu bod eisoes o fewn yr eglwys; ac yn olaf, y Cristnogion. Dyma'i disgrifiad o'u profiad hwythau:

I lawer o'r cyfryw bu y Diwygiad yn agoriad llygaid. Cawsant eu bod yn llawer mwy cyfoethog nag yr oeddynt erioed wedi meddwl. Yr oeddynt, ers blynyddoedd feallai, wedi trigo ym mhalas y Brenin fel gweision cyflog, yn cyflawni dyletswyddau crefyddol gyda ffyddlondeb a serch. Ond yn ystod y Diwygiad, clywsant, am y tro cyntaf, lais tyner y Tad yn eu gwahodd i'r wledd, a cawsant fod y 'wisg orau, y fodrwy a'r esgidiau' yn eiddo iddynt yr awr honno trwy waed yr Iesu.

Dyma bwt byr ar rai o'r cymeriadau, er mwyn rhoi blas i chi o'r straeon:

Huw Tomos

'Crydd Duwiol Tŷ Sion,' yr athro ysgol Sul annwyl sy'n colli ei ferch fach yn bymtheg oed ac sy'n gyfrwng dod â nifer o fechgyn y pentref i adnabod Iesu Grist. Ar ôl i Huw ddioddef salwch difrifol, mae rhai o fechgyn ei ddosbarth ysgol Sul yn penderfynu mynd i'r Allt, lle'r arferai Huw fynd i weddio, er mwyn erfyn ar Dduw i'w wella. Yn eu plith mae Mike, Gwyddel a gwas fferm, sy wedi bod yn mynd i wersi ysgol Sul

Huw er nad yw'n deall gair o Gymraeg:

Yr oedd Mike gyda ni yn yr Allt y prynhawn hwnnw, ac yn crio yn dost. 'Tell him in Welsh,' meddai 'if He'll jest leave Hugh for a bit, he'll bring a moighty lot wid 'im!' Credai Mike fod Duw yn deall Cymraeg yn well na Saesoneg!

Rachel Williams

Y weddw sy'n codi saith o blant ar ei phen ei hun. Mae ei chymdogion yn ei gweld hi fel menyw grefyddol sydd wedi codi'i phlant yn barchus er gwaetha'i sefyllfa.



Eto mae Rachel yn llawn pryderon dros ei phlant, yn ofni'r 'drwg sydd yn y byd'. Mae tro hyfryd yn ei stori hi, felly wna i ddim ei sbwylio hi trwy ddweud mwy ...

Betsy Jones

Yr anogwr lletygar, yn profi gwrthryfel mewnol yn ei henaint wrth i'w mab gael ei alw'n genhadwr i'r India.

Yr oedd yn awyddus iawn am gael byw, 'yn un peth, rhag ofn i bobl feddwl i mi dorri fy nghalon; nad oeddwn i ddim yn foddlon i'r Arglwydd gael y bachgen. Leiciwn i ddim i neb ddweud fod Duw wedi bod yn greulon i mi ...

Lisa Bennet

'Cawres o ddynes ... oedd yn byw yng nghanol llwch a baw ddigon i ladd pobol gyffredin,' sy'n profi troedigaeth bron ar ei gwely angau. Wini ddewr yw'r cyfrwng mae Duw'n ei ddefnyddio i achub Lisa. Mae hi'n mynd i ymweld â'i chymydog dim ond ar yr amod bod ei chyfeillion, Sali a Let, yn gweddïo drosti wrth iddi fynd.

Mae hiwmor yn y straeon a chymeriadau crwn, cofiadwy.

Nid darluniau *sacharine* o Gristnogion sydd yma; mae'r awdures yn cyfleu rhagrith, balchder a rhagfarnau ei chymeriadau yn ddi-flewyn-ar-dafod. Yr un mor glir, fodd bynnag, yw ei phortread o drigolion Llanestyn a Phentre Alun yn gorfoleddu yn yr Efengyl, yn caru Crist ac yn cael eu trawsnewid gan Dduw.

Llon a Lleddf a Storiâu Eraill

Sara Maria Saunders

Rosanne Reeves (gol.)

Gwasg Honno, 242tt, £8.99

Newyddion

Yng nghanol Tachwedd bu'r myfyrwyr yn ein plith yn rhan o ymgyrch *Convinced?* a drefnwyd ar y cyd gan golegau'r ddinas. Gweddïwn am ffrwyth i'r gwaith yma.

Croeso nôl i David ac Anne James Morse! Byddwn yn cael adroddiad yn y cwrdd bore ar eu taith ddiweddaraf i Sbaen yn fuan.

Gwyliau ym Mryn-y-Groes i bobl o bob oed rhwng Rhagfyr 30 a Ionawr 2 yw *Blwyddyn Newydd Dda*. Mae'r llefydd yn llenwi'n gyflym, felly cysylltwch â Gwydion a Catrin ar brynygroes@mudiad-efengylaidd.org os am sicrhau lle.

Bydd *Sbri*, ein clwb gwyliau i blant 4 i 11 oed, yn cael ei gynnal eto ar ddydd Llun i ddydd Mercher yn hanner tymor Chwefror (Chwefror 24 - 26) . Cadwch y dyddiadau mewn cof. Beth am i chi, blant, wahodd eich ffrindiau?

Os hoffech dderbyn *Cwmpawd* mewn ffurf .pdf drwy ebost,

gadewch i ni wybod trwy gysylltu ar: gwybodaeth@cwmpawd.org. Efallai eich bod yn derbyn y cylchgrawn drwy'r post ar hyn o bryd, ond fyddai'n well gennych ei dderbyn mewn modd electroneg? Cofiwch fod y cylchgrawn hefyd ar gael ar ein gwefan: www.cwmpawd.org.

Trefniadau Nadolig:

Oedfa garolau oedolion
Nos Sul, 6.00pm, Rhagfyr 8

Oedfa garolau
yr Eglwys Newydd
Nos Sul, Rhagfyr 15

Parti Nadolig
Pnawn Sadwrn,
Rhagfyr 20, 2.00pm

Gwasaneth carolau i blant
Bore Sul, 10.00am, Rhagfyr 22

Gwasanaeth Dydd Nadolig
Bore Sul, 10.00am, Rhagfyr 25

I'r Dyddiadur

Yn ystod yr wythnos...

Clwb Hapus Awr | nos Lun | 5.30 - 6.30pm
Cyfarfod Gweddi | nos Fawrth | 7.40pm
Paned a Sgwrs | bob yn ail fore Mercher | 10.00am
Cylch y Plant Bach | bore Gwener | 10.00 - 11.30am
Clwb y Bobl Ifainc | bob yn ail nos Wener | 7.00pm

Cynhelir y gweithgareddau uchod yn adeilad yr eglwys, ar wahan i Glwb Hapus Awr a gynhelir yn Ysgol Gyfun Glantaf.

Ar ddydd Sul...

Oedfaon am 10am a 6pm yn adeilad yr eglwys ar gornel Stryd Rhymni/ Stryd Harriet, Cathays, Caerdydd. Mae paned yn dilyn pob oedfa, a chynhelir yr Ysgol Sul yn ystod tymhorau'r ysgol (11.45 – 12.30am).

<i>Tachwedd</i>	17	<i>Emyr James</i>
	24	<i>Trystan Hallam / Emyr James</i>
<i>Rhagfyr</i>	1	<i>Emyr James / Trystan Hallam</i>
	8	<i>Trystan Hallam / Emyr James</i>
	15	<i>Emyr James / Trystan Hallam</i>
	22	<i>Trystan Hallam / Emyr James</i>
<i>Ionawr</i>	29	<i>Trystan Hallam</i>
	5	<i>Trystan Hallam / Emyr James</i>
	12	<i>Emyr James / Trystan Hallam</i>
	19	<i>Trystan Hallam / Emyr James</i>
	26	<i>Eifion Evans</i>
<i>Chwefror</i>	2	<i>Trystan Hallam</i>

Eglwys Efengylaidd Gymraeg Caerdydd
Stryd Rhymni
Cathays, Caerdydd

www.cwmpawd.org